# Taclu dy gartref

## Canllaw i bobl ifanc yn Sir Gâr

Adnodd 11 o 12

Mae'n bosib hoffet ti ddarllen yr adnoddau hyn hefyd:

- Budd-daliadau a hawl i fudd-daliadau
- Arian - Rhoi rhywfaint o arian heibio
- Arian - Mae angen peth arna i!
- Cyllidebu

Prosiect Paratoi

## Cymorth gan dîm y Cam Nesa

Fel un sy'n 'gadael gofal' yn Sir Gâr, efallai byddi di'n gallu cael rhywfaint o help tuag at gostau eitemau hanfodol wrth sefydlu cartref.

Bydd y cymorth yma yn dibynnu ar dy anghenion a'th sefyllfa ariannol, ond gallai gynnwys:

- Dillad gwely ac ati
- Celfi
- Carpedi
- Offer cegin
- Nwyddau gwyn (oergell, peiriant golchi dillad ac ati)

Siarad â'th gynghorydd personol i gael rhagor o wybodaeth.

# ARIAN I BRYNU EITEMAU

Dylet ti allu cael rhywfaint o arian i'th helpu i brynu rhai eitemau hanfodol ar gyfer y cartref. Yma, byddwn ni'n trafod pa opsiynau sydd ar gael i ti.

## Grant Gadael Gofal

- Hola dy gynghorydd personol am y grant yma a sut mae gwneud cais amdano.
- Ar hyn o bryd, mae'n bosib i ti gael hyd at £2000 tuag at gost eitemau i'th gartref



## Cronfa Cymorth Dewisol

- Ar adegau pan fydd arian yn brin dros ben, byddi di'n gallu cyflwyno cais i'r gronfa hon.
- Mae'r gronfa wedi'i chynllunio ar gyfer argyfyngau, er enghraifft os bydd dy fudd-dal wedi cael ei atal neu os bydd oedi cyn talu budd-dal, neu os bydd eitem hanfodol o gelfi wedi torri.
- Hola dy gynghorydd personol neu cer i'r wefan isod i gael rhagor o wybodaeth.

**https://llyw.cymru/cronfa-cymorth-dewisol-daf?_ga=2.183808870.155037790.1583917892-1140518775.1572437540**

Mae'n bosib dy fod ti'n gallu gwneud cais am grantiau eraill. I chwilio, cer i: **https://grants-search.turn2us.org.uk/**

## Cymorth gan Gymdeithas Dai

Os wyt ti'n rhentu tŷ neu fflat gan gymdeithas dai, mae'n bosib:

- bydd ganddyn nhw gronfa rwyt ti'n gallu gwneud cais iddi am eitemau hanfodol
- bydd ganddyn nhw gyswllt â sefydliadau lleol sy'n cynnig eitemau am bris rhatach

## ISA i Bobl Ifanc

- Os wyt ti wedi bod mewn gofal am fwy na 12 mis bydd y Llywodraeth wedi trefnu ISA i Bobl Ifanc i ti.
- Fe gei di fynediad i'r cyfrif hwn pan fyddi di'n troi'n 18 oed
- I gael rhagor o wybodaeth, hola dy weithiwr cymdeithasol neu dy gynghorydd personol.

## Capston Care Leavers Trust

- Mae gan yr ymddiriedolaeth hon rywfaint o arian ar gyfer eitemau hanfodol fel soffa neu beiriant golchi, ond mae'r ymddiriedolaeth yn cwmpasu Cymru a Lloegr felly hyn a hyn o arian sydd ar gael a'r cyntaf i'r felin fydd hi
- RHAID i ti roi cynnig ar bob dewis arall cyn cyflwyno cais i'r ymddiriedolaeth
- **https://www.capstonecareleaverstrust.org/**

# EITEMAU NEWYDD

**Gwefannau defnyddiol**

Dyma rai gwefannau sy'n egluro dy hawliau:

- **https://www.which.co.uk/consumer-rights**
- **https://www.moneysavingexpert.com/shopping/consumer-rights-refunds-exchange/**
- **https://www.citizensadvice.org.uk/consumer/somethings-gone-wrong-with-a-purchase/claim-using-a-warranty-or-guarantee/**

Nesa byddwn ni'n edrych ar opsiwn prynu eitemau newydd

## Nwyddau Diffygiol

- I gael ad-daliad, mae gen ti 30 diwrnod i ddychwelyd eitem ddiffygiol i'r siop lle cafodd ei phrynu
- Os byddi di'n ei dychwelyd ar ôl mwy na 30 diwrnod, mae angen i ti roi cyfle iddyn nhw drwsio'r eitem neu ddarparu un newydd yn ei lle
- Os bydd y siop yn methu trwsio'r eitem na rhoi un arall yn ei lle, wedyn byddi di'n gallu cael ad-daliad

Mae Hawliau Defnyddwyr tebyg yn berthnasol i eitemau digidol rwyt ti'n eu prynu.
Dylai'r eitemau hyn fod:

- o ansawdd boddhaol
- yn addas i'r diben
- fel y disgrifiwyd nhw gan y gwerthwr

## Sefydliadau Ailddefnyddio

Mae mwy a mwy o sefydliadau ailddefnyddio a siopau elusen yn gwerthu eitemau newydd.
Fel rheol, maen nhw'n gwerthu nwyddau newydd fel:

- Gwelyau
- Matresi

Mae'n bosib hefyd y byddan nhw'n gwerthu nwyddau newydd eraill fel:

- nwyddau gwyn - oergelloedd, peiriannau golchi dillad ac ati
- celfi - bydd y rhain yn aml yn gelfi pecyn fflat mae'n rhaid i ti eu rhoi at ei gilydd dy hun

## Cymharu prisiau

- Os wyt ti'n ystyried prynu eitemau newydd, gofala gymharu prisiau a chael y fargen orau.
- Mae llawer o siopau, gan gynnwys rhai siopau disgownt, yn gwerthu celfi
- Mae llawer mwy o siopau'n gwerthu eitemau i'r cartref fel offer coginio, dillad gwely ac ati
- Efallai bydd y gwefannau isod yn ddefnyddiol o ran cymharu prisiau

**https://pricespy.co.uk/**
**https://www.kelkoo.co.uk/**

RHAID i bob eitem rwyt ti'n ei phrynu fod:

- o ansawdd boddhaol
- fel y disgrifiwyd hi
- yn addas i'r diben
- yn para am gyfnod rhesymol o amser

## Gwarant ar Nwyddau

- Mae'n bosib bydd gwarant gwneuthurwr (AM DDIM) ar rai nwyddau newydd
- Mae hwn yn gwarantu y bydd y gwneuthurwr yn trwsio'r eitem neu'n ei chyfnewid am un newydd os bydd diffyg arni cyn pen cyfnod penodedig o amser, fel arfer 12 mis o'r dyddiad prynu
- Fel arfer byddan nhw'n gofyn i ti gofrestru'r eitem

### Gwefannau defnyddiol

Hawliau'r cwsmer

- https://www.moneysavingexpert.com/shopping/consumer-rights-refunds-exchange/#second

Chwilia am sefydliadau ailddefnyddio/siopau elusen lleol:

- https://www.charityretail.org.uk/find-a-charity-shop/
https://reuse-network.org.uk/find-items/#/

Pethau AM DDIM

Hysbysebion lleol

- https://www.freecycle.org/

Grŵp prynu a gwerthu ar

- Facebook
- Ap Shpock
- https://www.gumtree.com/
- eBay
- https://www.freeads.co.uk/carmarthenshire/
- Ap Olio


# EITEMAU AIL LAW

Mae'n bosib cael rhai celfi da iawn o'th siop ailddefnyddio/elusen leol. Dyma rai cynghorion os byddi di'n prynu eitemau ail law.

## Siopau lleol

Mae sefydliadau ailddefnyddio/siopau elusen lleol sy'n gwerthu celfi yn:

- Rhydaman- Barnardos
- Caerfyrddin- Tŷ Hafan, YMCA Cymru
- Cross Hands- Gwyn yr Wyrdd
- Tre Ioan- Xcel Furniture
- Llanelli- Tŷ Hafan, British Heart Foundation Cymru, YMCA Cymru, Elusen Ambulance Awyr Cymru, Step by Step




## Dewisiadau eraill

Byddi di'n gweld bod unigolion yn ceisio gwerthu eitemau neu gael gwared arnyn nhw am ddim trwy nifer o apiau neu wefannau:

- Freecycle - bydd yna grŵp o unigolion yn dy ardal leol yn cynnig pob math o eitemau mawr a bach am ddim
- Grŵp prynu a gwerthu ar Facebook - unigolion sy'n ceisio gwerthu eitemau. Efallai gallet ti drafod cael pris rhatach eto
- Shpock - ap lle mae pobl yn hysbysebu pob math o eitemau yn eu hardal
- Gumtree - gwefan lle mae pobl yn rhestru eitemau maen nhw am eu gwerthu

Efallai bydd dy sefydliad ailddefnyddio lleol:

- yn cynnig disgownt i bobl sy'n derbyn budd-dal penodol
- yn gweithio gyda'th gymdeithas dai leol i ddarparu rhai eitemau am bris rhatach neu AM DDIM

Hola yn y siop i weld ydy hynny'n berthnasol i ti.

## Diogelwch Trydanol

Os byddi di'n prynu nwyddau trydanol ail law, rhaid i ti wirio:

- Bod y nwyddau wedi cael prawf PAT. Mae hynny'n golygu eu bod nhw wedi cael prawf diogelwch trydanol. Bydd sticer arnyn nhw sy'n debyg i'r un ar y chwith.
- Bod y nwyddau wedi cael prawf 'gweithredu'. Mae hyn yn golygu bod y cwmni wedi gwirio bod y nwyddau'n gwneud yr hyn ddylen nhw, er enghraifft, bod oergell yn cyrraedd y tymheredd cywir ac yn ei gadw.
- Bydd y rhan fwyaf o siopau'n cynnig rhyw fath o warant ar eu nwyddau trydanol

## Dychwelyd Nwyddau

Mae rhai hawliau sylfaenol gan y cwsmer o hyd, er bod eitem yn un ail law:

- Rhaid i'r eitem fod fel y disgrifiwyd
- Rhaid i'r eitem fod yn gweithio
- Rhaid i'r eitem bara am gyfnod 'rhesymol' o amser